**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Gorffennaf 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. R. James (Dirprwy Faer)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Miss E. M. Chard, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, S.H. Ratcliffe, W. N. Tasker, T. Thomas, y Parchedig S. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 30. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

## 31. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), B. Blakeley (yn sâl), Mrs J. Chamberlain-Jones (salwch teuluol), Ms J. Hughes (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), Miss S. L. Roberts (ymrwymiad arall), A. J. Rutherford (ymrwymiad gwaith), Miss R. Siddall (ni roddwyd rheswm), D. Simmons (ymrwymiad teuluol) a Dirprwy Glerc y Dref, Miss H. J. Windus (ar wyliau).

## 32. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 15fed Mehefin 2016 - Rhifau Cofnod 19-29

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 15fed Mehefin 2016 - Rhifau Cofnod 4-7

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Gorffennaf 2016 - Rhifau Cofnod 8 - 10

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Gorffennaf 2016 - Rhifau Cofnod 22-37

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 33. ADDRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y rhestr o ddigwyddiadau y bu iddo ef a'r Maer eu mynychu dros y mis diwethaf, ac yn benodol at ei bresenoldeb yng Nhartref Gofal Dewi Sant ar gyfer dathliad pen-blwydd braf yn 107 oed.

## 34. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – SWYDDOGION GORFODI

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod Mr Tim Wynne-Evans, Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a Mr John Dunn a Mr Warren Hodgkinson, y ddau o Kingdom, i roddi diweddariad i'r Cynghorwyr ar weithgareddau gorfodi yn y Rhyl ac ymateb i gwestiynau'r Aelodau.

I ddechrau, ymddiheurodd Mr Wynne-Evans am fethu â mynychu'r cyfarfodydd blaenorol ac adroddodd:

- ar hanes trefniadau gorfodi'r Cyngor Sir o 2012 ymlaen i delio â throseddau amgylcheddol, a oedd yn broblem genedlaethol.
- bod y Cyngor Sir wedi penodi rhagflaenydd Kingdom yn wreiddiol, i ymgymryd â'r contract ar gyfer gwaith gorfodi ar sbwriel a baw cŵn.
- bod tîm Kingdom yn Sir Ddinbych yn cynnwys chwe swyddog (un Arweinydd Tîm, un Gweinyddol a phedwar Swyddog Gweithredol) ac roedd nawr yn ymateb i Sbwriel, Baw Cŵn, Graffiti, Glynu Posteri ac Ysmygu mewn mannau caeëdig.
- ar wisg y Swyddogion Gorfodi.
- ar fentrau a thactegau a defnyddiwyd, a oedd yn canolbwyntio ar y mannau gwaethaf a phatrolau sy'n ymateb i adroddiadau, ond hefyd yn cynnwys dosbarthu bagiau baw cŵn, bagiau "stubby", addysg, cystadleuthau 'Biniwch i ennill', camerâu personol ar y gweithwyr, ac yn fwy diweddar, defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng symudol, gydag arwyddion priodol.
- mai'r canlyniad oedd sir lanach gyda chydabyddiaeth genedlaethol a gostyngiad yn y nifer o docynnau roedd yn rhaid eu rhoi dros gyfnod o bedair blynedd.
- bod cwynion ynglŷn â rhoi tocynnau yn cynrychioli 1.036% o gyfanswm y tocynnau a roddwyd, a phwysigrwydd camerâu'r gweithwyr i ddatrys achosion lle'r roedd cwyno am docyn. Bod cwynion yn erbyn swyddogion gweithredu yn syrthio ond lle'r oedd tystiolaeth glir nad oedd swyddog penodol yn gweithredu'n unol â'r drefn gywir, roedd naill ai'n cael hyfforddiant neu'n cael ei ddisodli gan Kingdom.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Swyddogion:

- bod ardal ddrwg a adnabuwyd gan y Cynghorwyr wedi ei nodi ond y dylai'r Aelodau adrodd am leoliadau o'r fath i'r Cyngor Sir er mwyn galluogi eu monitro.
- pe byddai gweithrediadau swyddog gorfodi yn arwain at gamau cyfreithiol yn erbyn yr awdurdod, yn dibynnu ar natur y gweithrediadau, roedd yn debygol y byddai angen i Kingdom ymateb.
- na allai'r Cyngor reoli sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol.

- byddai Mr Wynne-Evans yn archwilio'r teledu cylch cyfyng ar y Gampfa Werdd i sicrhau bod yr arwyddion yn briodol.
- roeddent yn croesawu'r syniad o fynd i ysgolion i roddi addysg ar droseddau amgylcheddol i bobl ifanc, ond y flaenoriaeth mewn ysgolion oedd diogelwch ar y ffordd.
- byddent yn archwilio ymhellach faint o amser a dreuliwyd gan swyddogion mewn ceir a thra nad oedd hyn yn cael ei gyfrif fel cadw golwg cudd, roedd yn bwysig cael cydbwysedd rhwng patroliau ar droed ac amser a dreuliwyd mewn cerbydau.
- y byddent y ceisio darparu ystadegau ar ble roedd y tocynnau wedi eu rhoi yn union.
- byddent yn sicrhau bod manylion cyswllt priodol a chlir yn cael eu cynnwys ar y tocynnau a roddir.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y Dirprwy Faer i'r swyddogion am fynychu ac am y cyflwyniad.

**35. <u>CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP HEDDLU CYMDOGAETH GORLLEWIN Y RHYL</u>**

Ymhellach i gofnod rhif 26 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf 2016, dywedodd y cynrychiolydd iddi fynychu cyfarfod y Grŵp uchod, ac adroddodd:

- bod polisïau gosod cymdeithas dai ar gyfer tenantiaethau yn wan o ran delio â phroblemau tenantiaid yn defnyddio cyffuriau.
- bod 16 wedi eu restio oherwydd cyffuriau yn y mis diwethaf yn y Rhyl.
- roedd achos o gaethwasiaeth fodern wedi ei hadnabod yn Sir Ddinbych.
- bod amddifadedd plant arwyddocaol yn y dref.
- ar rôl esblygol Cymunedau yn Gyntaf yn y Rhyl.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn yr wybodoaeth a diolch i'r Aelod am ei hadroddiad.*

**36. <u>CRONFA CYMUNEDAU ARFORDIROL</u>**

Dywedodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE bod y gronfa uchod ar gael (copi o'r datganiad i'r wasg yn amgaeëdig).

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn yr wybodaeth.*

**37. <u>SEIBIANT MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL</u>**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r Cadeiryddion priodol yn ystod Seibiant Mis Awst, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Pwyllgor CSG | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG |

| | | |
|---|---|---|
| Holl Faterion Eraill | - | Cadeirydd a/neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a Chadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG |

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau a chyfarwyddo Clerc y Dref i gymryd a camau a awgrymwyd yn ystod y cyfnod seibiant.*

**38. EITEM WYBODAETH GAN AELOD: BEICIO AR Y STRYD FAWR**

Dywedodd Aelod bod busnesau Canol Tref y Rhyl wedi cwyno am gynnydd mewn beiciau yn cael eu reidio'n gyflym mewn grwpiau o gwmpas yr ardal sydd wedi ei phedestreiddio.

***PENDERFYNWYD*** *gofyn i Gyngor Sir Ddinbych gymryd camau priodol.*

**39. HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

40. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**41. EITEM GAN AELOD: ACADEMI KARATE BLACK BELT SHIRLEY SMITH**

Soniodd y Cynghorydd B. Mellor am daith yr Academi i Sisili i gymryd rhan ym Mhencampwriaeth Crefftau Ymladd Unedig y Byd (WUMA) a chyflwynodd gais i'r Aeodau ei ystyried.

Dywedodd Clerc y Dref mai polisi'r Cyngor oedd peidio â rhoi cyllid grant i fudiadau allanol. Dywedodd Clerc y Dref ymhellach, pe hoffai'r aelodau arolygu'r polisi, dylid ei gyfeirio at y Pwyllgor CSG i'w ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais ac anfon llythyr at y grŵp yn esbonio polisi'r Cyngor Tref a bod cyllid amgen ar gael yn y Rhyl.*

**42. ARENA DDIGWYDDIADAU – CORLAN CEFNOGWYR**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau gadarnhau bod y Cyngor, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, yn darparu Corlan Cefnogwyr yn yr Arena Ddigwyddiadau a chostau terfynol hynny.

Dywedodd Clerc y Dref bod y costau terfynol yn dal i gael eu cyfrifo ac y byddai adroddiad maes o law.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau camau Clerc y Dref mewn ymgynghoriad â mwyafrif yr Aelodau.*

**43. RHYDDFREINWYR ANHRYDEDDUS**

Adroddodd Clerc y Dref am gais a dderbyniwyd trwy law y Cynghorydd D. Simmons gan Ryddfreiniwr Anrhydeddus a gofynnodd am gyfarwyddiadau'r Cyngor ar hynny.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod y cais ond peidio â gweithredu ar hyn o bryd.*

44. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:…………..……………..

Dyddiad: …………….…………..